

No.

FFORWM MYNEDIAD LLEOL BRO MORGANNWG

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Ebrill, 2023.

Yn Bresennol: I.A.N. Perry (Cadeirydd); S. Bain, S. Campbell, J. Cole, R. Exley, I. Fraser, K. Lucas, G. Thomas a Cynghorydd E. Williams

Hefyd yn bresennol: G. Davies (Ysgrifenydd), A. Briscoombe, P. Chappell, D. Hunt, S. Pickering ac S. Thomas (Cyngor Bro Morgannwg) ac M. Miyata-Lee (Cyfoeth Naturiol Cymru).

(a) Ymddiheuriadau Am Absenoldeb –

Derbyniwyd y rhain gan W.A. Hennessy (Is-gadeirydd), I.R. Buckley, F. Coleman, L. Davies, S. Davies, S. Gaffney, S. McMillan and P. Walsh

(b) Cofnodion –

CYTUNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd, 2022 fel cofnod cywir.

(c) Adroddiadau Cynnal a Chadw -

Rhoddodd D. Hunt y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith cynnal a chadw a wnaed gan y Tîm Hawliau Tramwy.

Cyfeiriodd at y Grant Gwella Mynediad (CGM), a oedd yn gyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i bob awdurdod lleol yng Nghymru a ddefnyddiwyd i wella mynediad i'r rhwydwaith hawliau tramwy. Defnyddiwyd fformiwla yn seiliedig ar faint y rhwydwaith ym mhob ardal yn erbyn poblogaeth yr ardal. Ar gyfer Bro Morgannwg, defnyddiwyd y CGM ar gyfer y canlynol:

- Adeiladu llwybr troed yn Ninas Powys yn ymwneud â FP1 Sain Andras;
- Disodli camfeydd a gatiau mochyn sydd wedi torri o amgylch Ystrad Owen a'r Bont-faen;
- Trwsio camfa garreg sydd wedi cwmpo yn Llanfleiddan; ac
- I adeiladu rheiliau llaw a grisiau ar gyfer llwybr troed B1/62/1 yn y Barri.

Nodwyd bod 20km o lystyfiant wedi'i glirio mewn perthynas â Llwybr Arfordir Cymru drwy ddau sesiwn dorri ar wahân er mwyn gwella mynediad at lwybrau a choridorau.

Roedd Llwybr yr Arfordir wedi'i ailalinio ar Lwybr Troed 7 yn Larnog ac roedd y llwybr wedi'i rolïo'n ôl ar Lwybr Troed 6 yn agos at Sain Dunwyd. Yn ogystal, roedd y tîm wedi bod allan o amgylch y Barri a Phenarth yn disodli arwyddbyst ac roedd gwaith draenio ac ailwynebu wedi'i wneud o amgylch Larnog.

No.

O ran gwaith cynnal a chadw Hawliau Tramwy, roedd hyn yn cynnwys gosod 40 o gatiu mochyn i gymryd lle'r camfeydd presennol a gosod 15 o gatiu dau-mewn-un i gymryd lle camfeydd sydd wedi torri. Yn ogystal, roedd 4 pont droed wedi'u gosod er mwyn disodli strwythurau peryglus. Roedd cyfanswm o 35km o lystyfiant wedi'i glirio tua'r tir oddi ar lwybrau er mwyn gwella mynediad i'r rhwydwaith.

O ran gwaith gwirfoddolwyr, cafodd 75 o adroddiadau arolygu llwybrau eu cynnal gan Valeways. Roedd y Cerddwyr hefyd wedi cynnal archwiliadau cerdded a chlirio.

O ran gosod arwyddbyst newydd, cynghorwyd y Fforwm fod y dodrefn newydd yn fwy cadarn ac y gellir eu gweld ymhellach i ffwrdd.

Cyfeiriodd Aelod o'r Fforwm at flaenoriaethau gwella Hawliau Tramwy a holodd sut y gellid gwneud y cyhoedd yn ymwybodol o beth oedd y blaenoriaethau. Mewn ymateb, dywedodd Mr A. Briscoe fod hwn yn bwynt dilyn gan nad oedd materion a oedd wedi'u datrys yn cael eu hadrodd yn ôl.

Dywedodd y Cadeirydd y gallai gatiu 2-mewn-1 fod yn broblemus. Mewn ymateb, dywedodd Mr A. Briscoe mai'r brif broblem oedd nad oedd rhai o'r rhain bob amser yn y lleoliadau cywir a'u bod mewn ardaloedd a ddefnyddir gan gerbydau a allai wneud y ddaear yn dyllog. Byddai lleoliadau'r rhain yn cael eu hystyried yn fanylach ar gyfer gosodiadau yn y dyfodol.

CYTUNWYD - NODI'R diweddariad i'r adroddiad cynnal a chadw.

(d) Diweddariadau Gorchmynion Cyfreithiol a Gorchmynion Diwygio Tystiolaethol -

Rhoddodd S. Thomas ddiweddariad o'r Gorchmynion Cyfreithiol a'r Gorchmynion Addasu Tystiolaethol sydd wrthi'n cael eu cwblhau ar hyn o bryd.

Dywedodd S. Thomas, o gyfanswm o 25 o Orchmynion Cyfreithiol, fod 14 wedi eu cau, gydag 8 wedi'u cau yn llawn gyda Gorchmynion Addasu. Roedd 2 wedi mynd i'r adran Gyfreithiol i'w cwblhau a byddent yn cael eu cau yn fuan iawn ac roedd 3 yn destun cadarnhad o ran pryd y cawsant eu cwblhau neu'n aros i gael eu cwblhau. Mae cyfanswm o 11 yn dal i fod ar agor ond roedd y rhan fwyaf wedi'u cwblhau gyda Gorchmynion Cyfreithiol.

O ran Gorchmynion Addasu, ar hyn o bryd roedd 8 achos i adrodd arnynt. Roedd 2 yn segur, 3 yn destun ymchwiliad, 1 i'w ymchwilio, 1 gyda PCAC gan fod y penderfyniad wedi'i apelio ac 1 yn y broses o gael ei gytuno.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch a oedd terfynau amser ar gyfer cwblhau'r llwybr troed newydd, dywedodd S. Thomas y byddai'n dibynnu ar y rheswm dros greu llwybr troed neu a oes anghywirdeb ar y Map Diffiniol. Gwyddys bod rhai achosion yn parhau am flynyddoedd, ond mae'r broses gyfreithiol gydag

No.

apeliadau PCAC yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud penderfyniad o fewn 12 mis i gais.

PENDERFYNWYD - NODI'R adroddiad.

(e) Datblygiad Ffermydd Solar yn y Fro a'r Effaith ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus -

Yn dilyn cais gan Aelod o'r Fforwm Mynediad Lleol ynghylch datblygiadau ffermydd solar ym Mro Morgannwg a'r effaith ar y rhwydweithiau Hawliau Tramwy Cyhoeddus, roedd yr adran Hawliau Tramwy Cyhoeddus wedi darparu crynodeb byr o'r broses bresennol. Cafodd hyn ei amlinellu yn y papurau agenda.

Adroddwyd y cysylltir â'r Adran Hawliau Tramwy Cyhoeddus fel rhan o'r broses ymgynghoriad cynllunio pe bai unrhyw hawl dramwy gyhoeddus yn dod o fewn datblygiad arfaethedig neu o fewn pellter rhesymol i ddatblygiad. Byddai maint y datblygiad yn penderfynu a wnaed cais cynllunio i'r awdurdod lleol neu Lywodraeth Cymru.

Ar hyn o bryd, roedd yr Adran Hawliau Tramwy Cyhoeddus (HTC) yn ymwybodol o bedwar cais a oedd yn gofyn am benderfyniad gan Lywodraeth Cymru, o dan Orchymyn Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016. Dywedodd S. Thomas fod y pedwar achos fferm solar ar y cam ymgeisio ar hyn o bryd, yn ymwneud â Pharc Dyffryn, Dwyrain Aberddawan, Fferm Oaklands a Pharc Worlton i'r gogledd o'r Barri.

Adroddwyd y byddai'r adran HTC yn delio â datblygiadau bach neu o arwyddocâd cenedlaethol yn yr un modd. Safbwynt HTC yw na ddylid colli unrhyw hawliau tramwy cyhoeddus, ac os oes angen gwyriad bydd y llwybr newydd cystal os nad gwell na'r hen lwybr. Byddai'r adran HTC yn negodi i wella'r rhwydwaith HTC, ond y llinell sylfaen oedd bod gofyn i'r adran dderbyn cais Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i ddargyfeirio neu ddileu llwybr os oedd y cais yn bodloni'r profion cyfreithiol o fewn Adrannau 257 a 258 y Ddeddf. Ar yr adeg hon, nid oedd yr adran wedi derbyn unrhyw gais i ddileu llwybr.

Fel y darperir yn ein pecyn cais, y profion ar gyfer cais gwyr (ad.257) oedd (Cyn gwneud Gorchymyn, rhaid i'r Awdurdod fod yn fodlon bod):

- Angen gwneud hynny er mwyn galluogi datblygiad i gael ei gyflawni yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd.
- Yr anfantais neu'r golled sy'n debygol o godi i'r cyhoedd neu i dirfeddianwyr cyfagos wedi'i bwysu a mesur yn erbyn manteision y cau neu ddargyfeirio arfaethedig.
- Ystyriaeth wedi'i rhoi i'r angen i ddarparu priffordd amgen.
- Y datblygiad sy'n effeithio ar y llwybr heb ei gyflawni eto
- Y llwybr a ddangosir yn y gorchymyn fel y llwybr amgen ddim yn Hawl Dramwy Gyhoeddus bresennol.

No.

Nid oedd y ddeddfwriaeth yn rhoi'r cyfle i'w gwneud yn ofynnol i sgrinio llwybr mewn perthynas â gwerth amwynder gweledol neu ymylon eang i ddarparu coridorau bywyd gwyllt, ond roedd yr adran wedi nodi'n flaenorol, o fewn ymateb, er eu bod cydnabod nad oedd sgrinio'n ymwneud yn uniongyrchol ag argaeledd parhaus y llwybr troed, y byddai'r adran yn croesawu sgrinio'r llwybr troed.

Nodwyd y gellir cysylltu â'r adran yn anffurfiol ar gam cynnar i drafod y rhwydwaith HTC a bod cyswllt blaenorol wedi'i gynnal gydag aelodau o'r cyhoedd yn flaenorol a oedd wedi gweld datblygiad arfaethedig mewn Pecyn Gwybodaeth i Breswylwyr.

O safbwynt y rhwydwaith HTC, gallai datblygiad ffermydd solar fod yn gadarnhaol iawn gan eu bod yn galluogi'r adran i drafod ac ar adegau sicrhau cynnydd yn y rhwydwaith ac uwchraddio llwybrau presennol, er y gellir lleihau'r gwerth amwynder gweledol.

Bu'r Fforwm yn trafod lleoliadau ffermydd solar eraill oedd yn cael eu cynnig ym Mro Morgannwg, gan gynnwys Llancarfan a Lecwydd.

O ran ymgynghori ar safle Dwyrain Aberddawan, dywedodd Mr S. Pickering y byddai'n rhaid i'r datblygwr fynd drwy'r broses o wneud cais Cynllunio drwy Lywodraeth Cymru. Roedd hynny'n golygu y byddai'n rhaid ymgynghori â'r adran HTC.

CYTUNWYD – NODI cynnwys y diweddariad.

(f) Gweithdy Hygyrchedd Rhwydwaith -

Oedwyd y Fforwm Mynediad Lleol er mwyn cynnal digwyddiad gweithdy er mwyn ystyried hygyrchedd y rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Ar gyfer hyn, crëwyd tri grŵp gyda'r grŵp cyntaf yn edrych ar y materion sy'n ymwneud â hygyrchedd o safbwynt perchnogion tir, yr ail grŵp o safbwynt defnyddiwr a'r trydydd grŵp yn ystyried cyfyngiadau ar gyfer swyddogion Hawliau Tramwy Awdurdodau Lleol.

CYTUNWYD – Y bydd yr adborth a ddarperir gan y Fforwm Mynediad Lleol yn cael ei ystyried gan y tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus.

(g) Trosolwg Grantiau -

Rhoddodd D. Hunt drosolwg o'r grantiau sydd ar gael ar gyfer datblygu a chynnal y rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus.

Roedd hyn yn cynnwys dros £62k o'r Grant Gwella Mynediad (GGM) er mwyn gwella a chynnal arwyddbyst a disgiau ar ochr y ffordd i ddisodli pecynnau dodrefn llwybr a chynnal pontydd troed i gerddwyr.

Yn ogystal, trafodwyd y Prosiect Gwella Mynediad i'r Arfordir (PGMA) y dyrannwyd dros £39k i'r Cyngor ar ei gyfer er mwyn rhoio Llwybr Arfordirol 8 yn ôl

No.

yn Sain Dunwyd ac er mwyn ymgymryd â gwaith cynnal a chadw a chlirio blynyddol Llwybr Arfordir Cymru.

CYTUNWYD – NODI adroddiad y diweddariad.

(h) Gorfodaeth Cnydau Diweddariad Llafar -

Rhoddodd D. Hunt ddiweddariad llafar ar y gwaith a wnaed gan y tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus mewn perthynas â gorfodi cnydau. Dywedodd fod proses gyfreithiol i'r Cyngor ymgymryd â hi o ran sicrhau bod ffermwyr yn darparu mynediad priodol drwy gaeau cnydau. Un o brif broblemau'r tîm oedd nodi, ac felly roedd y Cyngor yn dibynnu ar ddefnyddwyr y rhwydwaith i wneud adroddiadau yn uniongyrchol i'r swyddogion Hawliau Tramwy. Ar ôl adrodd, byddai swyddogion y tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn cael mynediad i'r ardal ac os pennir bod y llwybr wedi'i rwystro neu os oedd cnydau'n cyfyngu ar fynediad, yna byddai Llythyr Gorfodi yn cael ei anfon at y perchnogion tir. Ar adegau, roedd y tîm Hawliau Tramwy wedi gorfod ymgymryd â'r gwaith clirio gofynnol eu hunain er bod hyn yn risg gan fod yr union led a mapiau lleoliadol yn fanwl iawn. Fel arfer byddai'r tîm Hawliau Tramwy yn gweithio gyda pherchnogion y tir er mwyn dod o hyd i ateb priodol.

CYTUNWYD – NODI'R diweddariad.

(i) Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Diweddariad LLafar -

Rhoddodd D. Hunt ddiweddariad llafar ar Gynllun Gwella Hawliau Tramwy newydd y Cyngor. Dywedodd fod y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy drafft wedi'i ddarparu i'w ystyried yng nghyfarfod diwethaf y Fforwm Mynediad Lleol. Roedd y fersiwn ddrafft wedi'i diweddarau a byddai nawr yn cael ei hanfon i'r Cabinet i'w chymeradwyo'n derfynol rywbryd yn ystod mis Mehefin. Unwaith y cytunir arno, byddai'r Cynllun yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a byddai'n cwmpasu cyfnod o ddeng mlynedd a byddai'n cael ei fonitro'n barhaus.

O ran olrhain y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, nodwyd y byddai'r Fforwm Mynediad Lleol yn derbyn diweddariadau yn flynyddol.

CYTUNWYD – BOD y Fforwm Mynediad Lleol yn derbyn diweddariad blynyddol ar y cynnydd gyda Chynllun Gwella Hawliau Tramwy y Cyngor.